**7.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **24C192D** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr & Mrs J & T Shaw**
**c/o Aspire Planning Ltd**
**Second Floor Offices**
**15 Boulevard**
**Weston super Mare**
**Avon**
**United Kingdom**
**BS23 1NR**

Codi twrbin wynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 15m, diamedr rotor hyd at uchafwm o 7.5m a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 19m ar dir yn

Erection of a wind turbine with a maximum hub height of up to 15m, rotor diameter of up to 7.5m and maximum upright vertical tip height of up to 19m on land at

Rhiwlas, Nebo, Penysarn



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ar gais yr Aelod Lleol sy’n dweud bod ganddo bryderon ynglŷn â’r effaith ar yr amgylchedd a hefyd am ddyluniad y tyrbin.

Bydd Aelodau’n cofio ymweld â’r safle ar 20 Mehefin.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Y bwriad yw codi tyrbin gwynt gydag uchder hwb o 15m a rotor a fydd 7.5m ar draws fel fod ei uchder mwyaf yn 19m.

Cae amaethyddol i’r dwyrain o Rhiwlas, Nebo yw safle’r cais.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Yr Egwyddor o Ddatblygu
A fydd niwed i fwynderau?
A fydd niwed i’r amgylchedd?
Materion Radar y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cadwraeth Natur

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi C7 Ynni Adnewyddadwy

Polisi D3 Ardal Cadwraeth Tirwedd

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 31 Tirlun

Polisi 41 Cadwraeth adeiladau

Polisi 45 Ynni Adnewyddadwy

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (Stopiwyd)**

Polisi 8b Datblygiadau Ynni

Polisi EP 18 Ynni Adnewyddadwy

Polisi EN1 Cymeriad y Tirlun

Polisi Cynllunio Cymru

TAN 8 Ynni Adnewyddadwy
Cyfarwyddyd Ymarferol Goblygiadau Cynllunio Ynni Carbon Isel ac Adnewyddadwy (Chwefror 2011)

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt (Ionawr 1994)

Rhestr Wirio Tyrbin Gwynt

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol wedi cyfeirio'r cais i'r pwyllgor am y rhesymau a roddwyd uchod.

Cyngor Cymuned - Yn cefnogi os caiff ei adleoli fel nad yw'n niweidio anheddau

Priffyrdd - Dim gwrthwynebiad

Swyddog Tirlun - Wedi ystyried y cais a'i effaith ar y dirwedd ac nid yw'n ystyried y gellid cyfiawnhau gwrthod yn yr achos hwn.

Swyddog Cadwraeth - Mae yna adeilad rhestredig graddfa 2 tua 300m i'r gogledd orllewin a rhaid ystyried yr effaith a geir ar hwn.

Iechyd Amgylcheddol - Caniatâd amodol

Draenio - Sylwadau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Dim gwrthwynebiad

Y Weinyddiaeth Amddiffyn - Dim gwrthwynebiad

Cafwyd tri deg llythyr sy'n cynnwys 2 gan yr un person.  Roedd y cyntaf yn gwrthwynebu lleoliad y tyrbin ond fe dynnwyd y gwrthwynebiad yn ôl yn yr ail lythyr yn dilyn ail-leoli'r tyrbinau.

Mae pwyntiau a godwyd yn y llythyrau eraill a gafwyd yn cynnwys:

250m o'r AHNE
Ger adeilad rhestredig Graddfa II
Bydd yn andwyol i fwynderau preswyl
Yn agos i lwybr cyhoeddus
Yn weladwy o'r A5025 ac yn agos i Fynydd Eilian
Gallai niweidio iechyd oherwydd y sŵn a chysgod-grynu
Dros yr uchder o 15m a dderbynnir
Ni fydd yn creu unrhyw swyddi
Bydd yr effaith weledol yn parhau am genedlaethau
Bydd Ynys Môn yn cael ei dominyddu gan dyrbinau ar draul trigolion a thwristiaeth
Yn agos i lwybr troed
O fewn 500m i annedd
Effaith gronnol niweidiol
Bydd yn gosod cynsail

Byd yn tyrru dros Benysarn
Gallai pawb ei weld
Byddai'n achosi problemau priffyrdd oherwydd y byddai'n tynnu sylw gyrwyr
Byddai'n difetha cymeriad y lleoliad
Yn gwrthdaro â thirwedd hanesyddol
Mae astudiaethau yn dangos y gallai fod yn andwyol i iechyd
Dim cyfiawnhad ar gyfer tyrbinau mawr ac eithrio lle mae'r gymuned yn cefnogi
Nid yw asiant yr ymgeisydd wedi cydymffurfio gyda'r amod Ymgysylltiad Cymunedol yn y rhestr wirio ac mae hynny'n gwbl annerbyniol. Ni ddylid bwrw ymlaen gyda'r cais hyd nes y bydd y mater hwn wedi ei ddatrys.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

24c192 Addasu adeiladau allanol yn 3 uned gwyliau caniatau 10/10/01
24c192a Rhybudd blaenorol o sgubor amaethyddol dim angen caniatad cynllunio
24c192b 2 uned gwyliau caniatau 23/3/09
24c192c/scr barn sgrinio ar gyfer tyrbin gwynt dim angen EIA 8/7/11

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Yr Egwyddor o Ddatblygu**

Mae'r egwyddor o ddatblygu wedi cael ei sefydlu gyda pholisïau a chyngor llywodraeth ganolog sydd a'r nod o annog ffynonellau adnewyddadwy o ynni.

**A fydd yna niwed i fwynderau?**

Ymwelwyd â'r safle ac o ystyried ei agosrwydd a'i berthynas i eiddo cyfagos nid ydym yn ystyried y bydd niwed gormodol i amwynder preswyl. Ymhellach i hyn, gan gofio maint y tyrbin a hefyd safle eiddo cyfagos, nid ydym yn credu y bydd y deiliaid preswyl hynny'n cael eu heffeithio gan fflachiadau cysgodion.

Mae asesiad effaith sŵn wedi'i gyflwyno ac mae'r Swyddog Iechyd Amgylcheddol y Cyngor wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o osod amodau.

**A fydd yna niwed i'r amgylchedd?**

Nid yw Swyddog Tirlun y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynllun ac mae'n dweud;

"Byddai'r tyrbin arfaethedig i'w weld o lawer o safleoedd cyhoeddus ger yr AHNE ac mewn rhai golygfeydd o'r AHNE ac o ffin yr AHNE. Byddai ei arwyddocâd yn y dirwedd yn cael ei liniaru gan dopograffi lleol, sgrinio adeiledig a sgrinio naturiol. Nid yw'n ymddangos bod y datblygiad arfaethedig mewn lle digon amlwg i fod yn niweidiol i'r AHNE, y dirwedd Arfordirol na'r dirwedd Hanesyddol a byddai ei effaith weledol yn bennaf ar ardaloedd y tu allan i'r AHNE, a byddai'n lleol ac yn weddol o ran ei effaith"

**Materion Ecolegol**

Nid yw Comisiwn Cefn Gwlad Cymry na Chynghorydd Ecolegol y Cyngor wedi gwrthwynebu'r cynllun.

**Materion Radar y Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Nid yw’r Weinyddiaeth yn gwrthwynebu.

Gosodwyd rhestr wirio ar y cais yn ôl-ddyddiol ac ystyrir mai’r unig fater sydd ar ôl yw mater y “Datganiad Ymgysylltiad Cymunedol”

Mae asiant yr ymgeiswyr wedi dweud ynglŷn â hyn;

“Nid yw’r ymgeisydd wedi ymgynghori yn uniongyrchol gyda’r gymuned. Fodd bynnag, mae rhybuddion safle wedi’u gosod gan y Cyngor i ddweud am y bwriad. Ni wnaed sylw ar unrhyw safbwyntiau ac ni ellid cyfiawnhau Datganiad Ymgysylltiad Cymunedol a bod hynny’n rhesymol oni bai bod y cais yn un am dyrbin masnachol graddfa fawr ....... Nid yw hwn yn brosiect masnachol ac yn beiriant 10kW bychan iawn'

Ystyrir yn yr achos hwn nad yw absenoldeb y datganiad hwn ynddo'i hun yn gyfiawnhad tros wrthod y cais. Dim ond y gofyn yn y rhestr wirio a rhaid rhoi’r pwysau angenrheidiol i hynny.

Dylid nodi i’r tyrbin gael ei symud o ganlyniad i sylwadau wnaed a hefyd bryderon y swyddog achos.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod yr egwyddor o gael tyrbin gwynt yn cael ei dderbyn. Ymhellach i hyn, mae effaith weledol y tyrbin a hefyd ei effaith ar fwynderau preswyl wedi cael ei asesu a’i ystyried yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) The development to which this permission relates shall be begun not later than the expiration of five years beginning with the date of this permission.**

Reason: To comply with the requirements of the Town and Country Planning Act 1990.

**(02) Rhaid gosod y tyrbin gwynt gan berson cymwys yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ar arolwg o’r safle.**

Rheswm: Er lles mwynderau

**(03) Ni chaniateir i sŵn cronnol o'r tyrbin gwynt, wedi’i fesur 3.5m o wyneb unrhyw eiddo cyfagos gyda rhywun yn byw ynddo ac nad yw ym mherchnogaeth yr ymgeisydd, fod yn fwy na 35db LA90, 10 munud hyd at gyflwymder gwynt o 10m/s ar uchder 10m. Lle bo’r rhan fwyaf sensitif i sŵn yn unrhyw eiddo cyfagos uwchben lefel y ddaear, rhaid i’r lleoliad monitro fod 1m o'r wyneb gyda chywiriad wyneb o -3db(a) yn cael ei ososd.**

Rheswm: Er lles mwynderau

**(04) Ni chaniateir i’r tyrbin gwynt fod yn un tonyddol o ran ei natur.**

Rheswm: Er lles mwynderau

**(05) Pe bai’r Awdurdod Lleol yn derbyn cwyn wedi’i chyfiawnhau o niwsans sŵn ynglŷn â’r tyrbin gwynt, rhaid i’r ymgeisydd gynnal prawf sŵn ar ei gost ei hun er mwyn dangos**

**cydymffurfiaeth gydag amod 3 a 4 uchod. Rhaid i'r fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu a oes cydymffurfiaeth fod wedi'i gytuno ag Adain Iechyd Amgylcheddol yr Awdurdod Lleol.**

Rheswm: Er lles mwynderau

**7.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **40C204G** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr & Mrs G Thomas**
**c/o CDN Planning**
**1 & 2 Connaught House**
**Riverside Business Park**
**Benarth Road**
**Conwy**
**LL32 8UB**

Codi uned gwyliau newydd yn Erection of a new holiday unit at

Bryn Awelon, Llanallgo



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod.

**1. Rhesymau’r Aelodau Dros Ganiatau**

Mae’r bwriad yn cydymffurfio gyda Polisi 8 o’r Cynllun Lleol Ynys Mon a Policy CH2 o’r Cynllun Fframwaith Gwynedd.

**2. Ymateb y Swyddogion i’r Rhesymau Dros Ganiatau.**

Mae Polisi 8 o Gynllun Lleol Ynys Môn yn dweud y bydd ceisiadau am lety gwyliau o ansawdd uchel yn cael eu caniatáu lle nad ydynt yn gwrthdaro gyda pholisïau eraill yn y cynllun. Yn arbennig, bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth ffafriol i gynigion sy'n ffurfio rhan integrol o gynllun cyffredinol sy'n ychwanegu at y cyfleusterau twristiaeth a hamdden yn yr ardal.

Mae Polisi CH2 o Gynllun Fframwaith Gwynedd yn dweud y bydd uwchraddio llety gwyliau cyfredol yn cael ei ganiatau lle nad ydyw'n gwrthdaro gyda pholisiau eraill.

Er bod y polisiau uchod yn galluogi caniatáu llety gwyliau newydd o ansawdd uchel, mae'n eglur yn y polisi na ddylai gynnig o'r fath gwrthdaro â pholisïau eraill y cynlluniau datblygu.

Mae'r safle yn gorwedd yn y cefn gwlad agored y tu allan i unrhyw anheddiad sy'n cael ei nodi yng Nghynllun Lleol Ynys Môn a fabwysiadwyd a'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd.

Mae'r safle hefyd o fewn y dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae Cyfarwyddyd ym Mholisi Cynllunio Cymru yn cynnig amddiffyniad i'r cefn gwlad agored gyda pharagraff 4.6.8 yn dweud yn glir bod yn rhaid rheoli yn gaeth iawn unrhyw adeiladau newydd yn y cefn gwlad agored sydd ymhell oddi wrth anheddau presennol neu fannau a neilltuwyd ar gyfer eu datblygu. Bydd rhaid i bob datblygiad newydd barchu cymeriad yr ardal o gwmpas a rhaid iddynt fod o faint a dyluniad priodol.

Mae Policy 8 o’r Cynllun Lleol Ynys Mon hefyd yn gofyn fod cynigion yn ffurfio rhan integrol o gynllun cyffredinol, dull sydd hefyd yn cael ei gefnogi ym mholisi TO2 yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd sydd yn dweud y bydd ceisiadau am lety gwyliau o ansawdd uchel yn cael eu caniatau lle nad ydynt yn achosi niwed annerbyniol i'r amgylchedd. Fe luniwyd y polisi er mwyn annog datblygu llety o ansawdd uchel i ymwelwyr yn y llefydd iawn.

Wrth ystyried y cynigion am lety gwyliau bydd yr effaith ar yr economi leol, y dirwedd, amgylchedd a chymeriad yr ardal yn ystyriaethau pwysig. Ni fydd y cyngor yn cefnogi cynigion i ddatblygu mewn lleoliadau gwael.

Mae Paragraff 5.7 o Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor ar Lety Gwyliau yn gosod meini prawf ar gyfer asesu lleoliad llety gwyliau. Mae'n dweud y dylid ystyried effaith y cynnig ar gymeriad tirwedd yr ardal. Mae hefyd yn dweud y dylai cynlluniau mewn lleoliadau o'r fath fod â darpariaeth o gyfleusterau i dwristiaid ar y safle yn hytrach na dim ond y llety ei hun.

Ar y safle hon fe geir y brif annedd sy'n cael ei defnyddio fel llety gwely a brecwast, bwthyn gwyliau ar wahân a charafán barhaol. Mae yna hefyd bwll nofio bychan y tu allan ger y prif dy. Nid oes yna unrhyw dystiolaeth / gyfiawnhad wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cais nac yn egluro sut y byddai'r cynnig yn ffurfio rhan o gynllun integrol.

Nid ydym yn credu y byddai darparu pwll nofio bychan y tu allan yn cyfateb i'r cynllun integrol y mae'r polisi yn gofyn amdano. At hyn, ychydig iawn o dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd am yr ystod o gyfleusterau yn yr ardal sydd yn union gyfagos, sydd yn fwy na'r cyfleusterau arferol a geir mewn cymunedau. Nid yw bodolaeth y cyfleusterau hyn yn ddigon o gyfiawnhad yn erbyn yr ystyriaethau polisi sy'n eu gorbwyso.

Mae safle'r cais o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol lle mae blaenoriaeth yn cael ei roi i ddiogelu a gwella'r ardal ddynodedig. Ystyrir y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd ddynodedig oherwydd ei faint a'i sefydlogrwydd.

Mae'r bwriad i godi uned wyliau newydd yn gwrthdaro gyda pholisïau'r cynllun datblygu gan nad yw'n ffurfio rhan o gynllun cyffredinol. Ystyrir y byddai'r uned wyliau newydd arfaethedig yn niweidiol i gymeriad a mwynderau gweledol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddynodedig.

**3. Argymhelliad**

**Gwrthod**

(01) Mae safle'r cais wedi'i leoli o fewn ardal sydd wedi'i dynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Byddai'r cynnig yn cyfateb i godi uned gwyliau newydd yn y cefn gwlad nad yw'n ffurfio rhan o gynllun cyffredinol a fyddai'n ychwanegu at gyfleusterau twristiaeth a hamdden yn yr ardal ac a fyddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad a mwynderau gweledol yr ardal sydd wedi'i dynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac yn groes i bolisïau 8 a 30 o Gynllun Lleol Ynys Môn, polisïau D1 a CH2 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, polisiau EN2 a TO2 o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd a'r cyngor geir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 3) a'r Cyfarwyddwyd Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau.

**7.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **41C103M** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr. O. Owen**
**c/o Savills**
**Wessex House**
**Prior Walk**
**East Borough**
**Wimborne**
**Dorset**
**BH21 1PB**

Cais llawn ar gyfer codi mast anemometer 40.5m o uchder dros dro ar dir

Full application for the erection of a temporary 40.5m high anemometer on land at

Ty Gwyn, Penmynydd



**Pwyllgor Cynllunio: 04/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio()**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Galwyd y cais hwn i mewn gan yr Aelod Lleol. Mae'r ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff yn yr Adran Gynllunio. Yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2012 fe benderfynodd yr Aelodau wrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y swyddog ar y sail y bydd effaith weledol y cynnig yn sylweddol andwyol.

Paratowyd adroddiad ar gyfer cyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i ymateb i'r rheswm hwnnw dros wrthod. Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfod mis Mai a gadarnhawyd yn y cyfarfod ar 6 Mehefin, yn nodi bod y Pwyllgor hefyd wedi gwrthod y cais oherwydd ei effaith ar dwristiaeth. Gohiriwyd rhoi sylw i'r cais felly fel bod modd rhoi sylw i'r mater hwn.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Bernir yn gyffredinol bod effaith weledol sylweddol andwyol yn altriad sylweddol yn yr olygfa a hynny er niwed i niferoedd mawr o dderbynyddion sensitif ac nad oedd modd lliniaru dim ar hynny.

Byddai'r strwythur a fwriedir yn diwb 15cm wedi'i galfaneiddio a gwifrau 5mm yn ei ddal yn ei le. Mae yna rhai eiddo preswyl o fewn tua 600m i'r safle ond yn gyffredinol bydd y golygfeydd a geir o'r mast yn rhai o bellter. Ni chredir y bydd y cynnig yn cael effaith o orbwyso ar yr eiddo preswyl sydd agosaf ato. Mae'n cael ei dderbyn y bydd y mast yn cael effaith weledol ond ni fydd hynny yn agos i nifer sylweddol o dderbynyddion sensitif a dim ond yn ystod cyfnod y caniatâd cynllunio, sef am gyfnod o 18 mis. Nid yw'n bosibl lliniaru'r effaith ond mae'n un y gellir ei newid yn gyfan gwbl. Mae'r cynllun yn debygol o gaeth effaith gronnol gyda chais am fast anemomedr 60m o uchder ar dir yn Bryn Eryr Uchaf (cais 41C125A) wedi ei leoli rhyw 600m i'r gogledd ddwyrain o'r safle hwn. Mae'r cynnig wedi'i leoli mewn tirwedd lle mae yna strwythurau tal eraill i'w gweld o ardaloedd eang fel mast telegyfathrebiadau Penmynydd a pheilonau'r grid cenedlaethol.

Rhaid cydbwyso'r polisïau sy'n ceisio diogelu rhinweddau ac edrychiad tirwedd Ynys Môn gyda pholisïau sy'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae paragraff 2.13 TAN 8 yn dweud “there is a balance to be struck between the desirability of renewable energy and landscape protection. Whilst that balance should not result in severe restriction on the development of wind power capacity, there is a case for avoiding a situation where wind turbines are spread across the whole of a county”. Nid cais yw hwn am dyrbin gwynt ond cais i godi offer i fesur y gwynt er mwyn asesu ei gapasiti tebygol ar gyfer datblygiad ynni gwynt yn y dyfodol. .O ystyried tymor byr y cynnig ac y gellir newid y sefyllfa yn gyfan gwbl ar ôl 18 mis, mae'r cynnig yn parhau i fod yn un o ganiatáu mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae gwrthwynebwyr wedi mynegi pryderon y bydd y cynllun yn cael effaith negyddol ar y diwydiant twristiaeth y mae Ynys Môn yn dibynnu'n helaeth arno, ac yn arbennig ar dy gwledig 5 seren Neuadd Lwyd. Penderfynodd yr aelodau wrthod caniatâd cynllunio ar sail effaith y cynnig ar dwristiaeth.

Bydd y mast anemomedr 600m i'r dwyrain o Neuadd Lwyd. Mae prif ffenestri bae Neuadd Lwyd tua'r de orllewin ac yn manteisio ar olygfeydd o Eryri. Bydd y mast yn weladwy o'r dreif a'r gerddi (er y byddai coed yn ei guddio o rai lleoedd) ond o gofio ei adeiladwaith ysgafn a'r pellter, ni fydd yn dominyddu'r golygfeydd.

Comisiynodd Bwrdd Croeso Cymru adroddiad yn 2003 i asesu 'Effaith bosib Ffermydd Gwynt ar Dwristiaeth yng Nghymru'. Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

Roedd 78% o'r ymatebwyr yn niwtral neu'n gadarnhaol ynghylch datblygu ffermydd gwynt.
Roedd gan 21% farn negyddol am ddatblygu ffermydd gwynt.
Byddai gan 68% diddordeb mewn mynychu canolfan ymwelwyr mewn datblygiad fferm wynt.
Dywedodd 68% na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r tebygolrwydd o gymryd gwyliau yng nghefn gwlad Cymru pe bai nifer y ffermydd gwynt yn codi.

Yn yr un adroddiad ystyriwyd datblygiadau yr oedd twristiaid yn ystyried y byddent yn tynnu oddi wrth eu mwynhad o'u gwyliau. Rhoddwyd nhw yn y drefn ganlynol:

| | |
|---|---|
| Peilonau a gwifrau trydanol | 48% |
| Mastiau ffonau symudol | 37% |
| Polion a gwifrau ffôn | 25% |
| Ffermydd a thyrbinau gwynt | 23% |

Mewn gwaith ymchwil a wnaed yn ddiweddar yn yr Alban gwelwyd canlyniadau tebyg:

Dywedodd 80% o'r rheini a ymatebodd yn y Deyrnas Gyfunol na fyddai eu penderfyniad i gymryd gwyliau yn y Deyrnas Gyfunol yn cael ei effeithio gan bresenoldeb fferm wynt.
Roedd gan 40% o'r rheini a ymatebodd yn y Deyrnas Gyfunol diddordeb mewn ymweld â datblygiad fferm wynt os oedd yn cynnwys canolfan ymwelwyr.

Yn gyffredinol, datgelodd y gwaith ymchwil a wnaed yn yr Alban ei fod yn well gan ymwelwyr, fe ymddengys, weld llai o ddatblygiadau mawr na mwy o ddatblygiadau bach, yn arbennig felly pan maent yn yr un ardal gyffredinol. Ymddengys bod twristiaid yn fodlon talu 20-35% yn fwy am ystafell gyda golygfa sydd heb ei difetha nag am ystafell gyda golygfa o fferm wynt.

Yn yr achos penodol hwn, mae'r cais am anemomedr dros dro yn hytrach na thyrbin gwynt neu fferm wynt. Bydd 600m i'r dwyrain o brif ddrychiad y ty gwesty agosaf ac ni fydd yn cael effaith ar y brif olygfa ar draws yr Ynys i fynyddoedd Eryri.

O ran nifer yr ymwelwyr i'r ardal leol, roedd y gwaith ymchwil a wnaed gan Fwrdd Croeso Cymru yn ystyried y gallai effaith ymarferol datblygiad o'r fath bod yn fychan iawn ac yn gyfyngedig iawn (e.e. gellid ei weld am 10 munud mewn taith 5 awr).

O gofio natur y cynnig, parheir i argymell cymeradwyo'r cais mewn perthynas â'r mater hwn.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Tynnir sylw'r Aelodau bod 130 o lythyrau ac e-byst wedi'u derbyn mewn perthynas â'r cais hwn, ac yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail

Effaith weledol ac effaith ar y dirwedd yn cynnwys effaith gronnol
Effeithiau ar fwynderau
Effeithiau ar adeiladau rhestredig a gweddillion archeolegol
Effaith ecolegol
Effaith ar dwristiaeth

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynglŷn â'r cynigion am dyrbin gwynt yn benodol a'r pryder bod y cais hwn am anemomedr yn rhagflaenydd i ddatblygiadau o'r fath ac na ellir, felly ei ystyried ar ei ben ei hun oddi

wrth gynigion yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni gwynt, bydd yr Aelodau'n gwybod na ellir ond rhoi pwysau bychan iawn i'r materion hyn yn y broses benderfynu a rhaid i'r cais hwn i godi mast tenau i gynnal offer mesur gael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun. Gwneir sylwadau hefyd mewn perthynas â Rheoliadau AEA newydd ryddhawyd yn 2011 ynglŷn ag asesu 'prosiectau' a'r angen am AEA lle bo cynigion yn amlwg yn rhan o gynllun ehangach. I egluro, ni ryddhawyd unrhyw Reoliadau newydd yn 2011 ac felly mae Rheoliadau 1999 (fel y'u diwygiwyd), yn parhau fel y Rheoliadau perthnasol. Nid yw codi mast anemomedr ynddo'i hun yn brosiect Atodlen 1 neu Atodlen 2 sydd angen sgrinio ar gyfer AEA ynddo'i hun. Mae barn sgrinio eisoes wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â datblygiad tyrbin gwynt (41C103K/SCR). Mae cylchlythyr 11/99 Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) yn dweud ym mharagraff 45 y dylai pob cais am farn sgrinio gael ei ystyried am AEA ar ei rinweddau ei hun ac fe ddylid pwyso a mesur y datblygiad ar sail yr hyn a fwriedir gan y datblygwr. Fe ddywed y cylchlythyr ym mharagraff 46, fodd bynnag, na ddylid ystyried cynigion ar eu pennau eu hunain os ydynt i'w cyfrif yn iawn fel rhan hanfodol o ddatblygiad sylweddol fwy. Fodd bynnag, wrth wneud asesiad o'r fath, rhaid ceisio sefydlu a allai'r datblygiadau arfaethedig fynd yn eu blaenau yn annibynnol, er enghraifft. Nid yw datblygu mast anemomedr yn brosiect Atodlen 1 nac Atodlen 2 ac nid yw'n dod o fewn y Rheoliadau AEA. Fe wnaed y cynnig barn sgrinio mewn perthynas â chodi un tyrbin. Mae angen y mast fel y gellir defnyddio offer mesur a rhaid ei ystyried ar ei rinweddau cynllunio unigol ei hun.

Nid yw'r ymgynghorwyr statudol wedi lleisio unrhyw bryderon ynglŷn ag effeithiau ecolegol. Mae'n cael ei dderbyn y bydd y cynnig yn cael effaith weledol yn y tymor byr ac effaith ar y dirwedd.

Tynnir sylw'r aelodau hefyd bod yr asiantiaid wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gefnogi'r cais mewn ymateb uniongyrchol i resymau'r Pwyllgor tros wrthod ac y maent hefyd wedi cadarnhau iddynt gael cyfarwyddyd i apelio yn erbyn unrhyw rybudd penderfyniad a ryddheir i wrthod y cais.

**3. Casgliad**

Ystyrir for y bwriad yn dderbyniol dros dro o osod amodau.

**4. Argymhelliad**

**Caniatau**.

**(01) Rhaid cael gwared o'r mast anemometr a ganiateir yma fel na fydd olion ohono ar y tir erbyn 4/10/2013 ag adfer y tir i'r hyn ydoedd cyn 31/01/2014.**

Rheswm: Am gyfnod dros dro'n unig y rhoes yr awdurdod cynllunio lleol ganiatâd.